# Strategaeth Iaith Sir Ddinbych 2017 - 2022



Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 03 |
| Ein Gweledigaeth | 04 |
| Y Cyd-destun Lleol | |
| Polisi a Deddfwriaeth Cenedlaethol | 12 |
| Thema 1: Cynllunio'r Iaith Gymraeg yn Strategol | 14 |
| Thema 2: Addysg, Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden | 17 |
| Thema 3: Y Gymuned | 23 |
| Thema 4: Busnes a'r economi | 28 |
| Thema 5: Gweinyddu mewnol | 32 |
| Monitro a Rheoleiddio'r Strategaeth | 36 |



# Rhagair

Rydym yn falch o gynhyrchu'r Strategaeth Iaith Gymraeg hon ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i osod safonau o safbwynt yr Iaith Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg, fel rhan o'i ymateb i'r Safonau.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu'r dull gweithredu arfaethedig o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni o fewn y sir.

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, bydd y Cyngor yn cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig.

Chwefror 2017

Mae'r Cyngor eisoes yn ymateb yn gadarnhaol i'r Safonau Iaith Gymraeg ac eisoes wedi rhoi nifer o'r dulliau gweithredu a gytunwyd arnynt ar waith. Mae hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r fframwaith Mwy Na Geiriau sydd wedi ei sefydlu er mwyn gwella darpariaeth iaith Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynllun gweithredu cynhwysol yn ei le ac mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i roi'r cynllun hwnnw ar waith yn y sir, er budd trigolion y sir.

Mae gan y Cyngor hefyd Bartneriaeth Strategol Y Gymraeg mewn Addysg sy'n edrych ar ddatblygiad strategol yr iaith Gymraeg yn ysgolion y sir. Mae Cynllun Gweithredu wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, sydd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Edrych tua'r dyfodol

Rydym wedi creu ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

- Sir ddwyieithog gan fwyaf yw Sir Ddinbych gyda threftadaeth a diwylliant cyfoethog. Rydym yn falch o hyn ac am i'r balchder hwnnw gael ei adlewyrchu yn ein gwaith dyddiol gyda chymunedau, gyda thrigolion a gyda'n staff.

- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod egwyddorion y Safonau Iaith yn sail i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; rydym am i bobl allu cael mynediad at wasanaethau drwy eu dewis iaith naturiol, ar bob cam o'u bywydau.

- Rydym am ychwanegu at ddiwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chymdeithasol i'n staff i weithio yn y Gymraeg ac i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.

- Rydym am weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau fod y Gymraeg yn iaith ffyniannus yn Sir Ddinbych.

- Mae gennym uchelgais i fod yn arweinwyr sector yn natblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru.


Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Ein nod yw atal y dirywiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn Sir Dinbych.  O ganlyniad, rydym yn cynnig cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych o 0.5% dros y bum mlynedd nesaf, gyda'r bwriad o ystyried targed tymor hwy i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg dros y 15 mlynedd nesaf.

Bydd y Cyngor yn darparu prif elfennau'r strategaeth hon drwy weithio'n strategol ac mewn cydweithrediad gydag amrywiaeth o sefydliadau cymunedol er mwyn prif ffrydio'r iaith Gymraeg ymhellach i ddarpariaeth gwasanaeth ac i sicrhau ei bod yn ystyriaeth hanfodol ym mhrosiectau, strategaethau a chynlluniau gwaith y dyfodol.

Mae'n hanfodol fod yr iaith Gymraeg yn ffurfio rhan allweddol o'r broses creu polisi ym mhob un o'n meysydd gwaith, gan gynnwys cynllunio, adfywio, addysg a gofal cymdeithasol.

I'r diben hwn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau fod cynllunio ieithyddol yn ddeilliant mwy strategol, er mwyn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un nod: gwarchod a chyfoethogi'r Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.




Y Cynghorydd Huw Jones,  Aelod Cabinet Arweiniol dros y Gymraeg



Y Cynghorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych

# Crynodeb Gweithredol



Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Ddinbych wedi ei datblygu o amgylch y weledigaeth o weithio er mwyn sicrhau fod yn iaith Gymraeg yn ffynnu yng nghymunedau Sir Ddinbych, yn ogystal ag o fewn ein sefydliad ein hunain.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, dyfeisiwyd y Strategaeth o dan 5 thema, pob un ohonynt yn gysylltiedig â'i gilydd:

| | |
|---|---|
| Thema 1: | Cynllunio’r Iaith Gymraeg yn Strategol yn Sir Ddinbych |
| Thema 2: | Addysg, Gwasanaeth Ieuenctid a Hamdden |
| Thema 3: | Y Gymuned |
| Thema 4: | Busnes a’r economi |
| Thema 5: | Gweinyddu mewnol y Cyngor |

Mae’r pum thema wedi datblygu o ymchwil trylwyr a gynhaliwyd ar ran yr awdurdod.

**Mae Thema 1** yn edrych ar sut mae Sir Ddinbych yn gweithio gyda’i phartneriaid allweddol o safbwynt darparu’r iaith Gymraeg ar draws y sir a sut y gallant weithio’n fwy strategol a chynllunio’u gweithgareddau mewn dull mwy cydlynol.

**Mae Thema 2** yn edrych ar gynyddu’r nifer o ddisgyblion sy’n dod yn rhugl yn yr Iaith Gymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac annog mwy o ddefnydd o’r iaith wedi iddynt adael yr ysgol. Rydym hefyd yn edrych ar wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol drwy weithio gyda'n gwasanaethau Ieuenctid a Hamdden.

**Mae Thema 3** yn edrych ar faterion sy’n effeithio cymunedau o safbwynt yr Iaith Gymraeg, gyda ffocws penodol ar effaith ein penderfyniadau polisi. Rhoddir ffocws allweddol ar faterion cynllunio lleol a’r Fframwaith Mwy Na Geiriau er mwyn cyfoethogi gwasanaethau dwyieithog mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

**Mae Thema 4** yn edrych ar sut y dylai Sir Ddinbych a'i phartneriaid o ran datblygu economi gydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol yr iaith Gymraeg a sicrhau fod strategaethau yn eu lle er mwyn sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc i aros yn y gymuned leol.

**Mae Thema 5** yn edrych ar sut gall y Cyngor hyrwyddo’r iaith Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant i staff a hybu ethos dwyieithog yr awdurdod drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i fynd i’r afael â rhai o’r meysydd gwaith allweddol a nodwyd o safbwynt datblygu’r iaith Gymraeg.

Mae manylion y broses ar gyfer monitro a rheoleiddio’r strategaeth hon yn cael eu cynnwys yn Adran 6.

# Yr Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych



Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2011 bod 22,236 o bobl Sir Ddinbych yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn cyfateb i 24.6% o'r boblogaeth. Cyfanswm y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 oedd 23,760, sef 26.4% o'r boblogaeth. Dros gyfnod o ddeng mlynedd gwelwyd cwymp o 1,524 mewn nifer a 1.8% fel canran o siaradwyr Cymraeg yn y sir.

Mae dosbarthiad daearyddol siaradwyr Cymraeg Sir Ddinbych ychydig yn fwy gwastad na'r hyn a geir yn Sir Conwy. Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos mai yn ne-orllewin y sir y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg, yn wardiau etholiadol Llandrillo (59.2%), Efenechtyd (53.7%), Llanrhaeadr yng Nghinmeirch (50.0%) a Llanfair Dyffryn Clwyd (48.3%).

Y wardiau etholiadol gyda'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yw Gogledd Prestatyn (12.6%), Gorllewin Rhyl (12.7%) a Dwyrain Rhyl (13.0%), sydd yn ardaloedd ar hyd yr arfordir.

Mae'r tabl isod yn dangos yr adrannau etholiadol sydd â'r canrannau uchaf a'r isaf o siaradwyr Cymraeg yn Sir Ddinbych:

| Adran Etholiadol | % Siaradwyr Cymraeg 2011 |
|---|---|
| Llandrillo | 59.2 |
| Efenechtyd | 53.7 |
| Llanrhaeadr yng Nghinmeirch | 50.0 |
| Llanfair DC/Gwyddelwern | 48.3 |
| Corwen | 47.9 |
| Rhuthun | 41.7 |
| Dinbych Isaf | 40.2 |
| | |
| De Orllewin Y Rhyl | 13.7 |
| De Orllewin Prestatyn | 13.7 |
| Dwyrain Y Rhyl | 13.0 |
| Gorllewin Y Rhyl | 12.7 |
| Gogledd Prestatyn | 12.6 |

Tarddiad: Sbectrwm

Yn wahanol i'r adrannau etholiadol â chanrannau uchel - sydd yn rhai gwledig yn bennaf – mae'r tabl isod yn dangos bod mwyafrif y wardiau etholiadol sydd â'r niferoedd uchaf i'w gweld yn y trefi marchnad megis Corwen, Rhuthun a Dinbych. Ymddengys felly bod y trefi hyn yn rhai arwyddocaol iawn o ran cynllunio ar gyfer dyfodol yr iaith gan fod niferoedd a chanrannau cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw ynddynt, yn yr un modd wardiau megis Llanfair DC/Gwyddelwern ac Efenechtyd sydd â chanrannau a niferoedd gweddol uchel. Yn ddiddorol, gwelir bod dros 1,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn ward De Ddwyrain y Rhyl er bod y ganran yn gymharol isel (15.5%):-

| Adran Etholiadol | Nifer Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|
| Rhuthun | 2,195 |
| Dinbych Isaf | 1,777 |
| De Ddwyrain Rhyl | 1,132 |
| Llanfair DC/Gwyddelwern | 1,044 |
| Corwen | 1,084 |
| Dinbych Uchaf | 998 |

Tarddiad: Sbectrwm

Roedd 9 adran etholiadol wedi gweld cynnydd mewn niferoedd ers 2001. Yn ogystal â'r rhai a enwyd ar dudalen 9 roedd adrannau etholiadol Bodelwyddan (+3), Llanarmon yn Iâl/Llandegla (+20), De Ddwyrain Y Rhyl (+5) a Rhuthun (+23) wedi cynyddu mewn degawd. Gogledd a De Orllewin Prestatyn welodd y cynnydd mwyaf, fel y nodir uchod.

## Dosbarthiad Siaradwyr Cymraeg yn ôl Oedran

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn gwahaniaethu'n fawr yn ôl oedran. Fel y dengys y tabl isod, yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd dros 40% o blant 3-15 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Ddinbych. Yn anffodus mae'r ffigwr hwn yn gostwng i 26% ar gyfer y grŵp oedran 15-30 ac yn is ar gyfer y grŵp oedran 30-50 (21.3%). Y grŵp oedran 50-70 sydd â'r canran isaf o siaradwyr Cymraeg yn yr holl grwpiau oedran, sef 18.3%. Mae'r grŵp oedran 70+ ychydig yn uwch gyda 22.4% yn medru'r Gymraeg. Fel y gwelir, ceir y canrannau mwyaf yn y grŵp oedran 4-15. Mae hyn mae'n debyg yn adlewyrchu dylanwad y gyfundrefn addysg ar sgiliau ieithyddol plant oed ysgol.

Mae'r niferoedd yn y grwpiau oedran 20-70 yn weddol gyson ac yn amrywio o 1,032 i 1,340. Y cyfartaledd ar gyfer pob grŵp oedran yw 1,174 o siaradwyr Cymraeg.

| Grŵp Oedran | % siaradwyr Cymraeg 2001 | % siaradwyr Cymraeg 2011 | Nifer Siaradwyr Cymraeg 2001 | Nifer Siaradwyr Cymraeg 2011 |
|---|---|---|---|---|
| Pawb dros 3 oed | 26.4 | 26.4 | 23,760 | 22,236 |
| 3-4 oed | 19.6 | 27.6 | 417 | 584 |
| 5-9 oed | 39.4 | 45.3 | 2,273 | 2,248 |
| 10-14 oed | 46.3 | 47.2 | 2,865 | 2,581 |
| 15-19 oed | 36.6 | 32.5 | 1,990 | 1,950 |
| 20-24 oed | 24.8 | 23.0 | 1,115 | 1,198 |

| Grŵp Oedran | % siaradwyr Cymraeg 2001 | % siaradwyr Cymraeg 2011 | Nifer Siaradwyr Cymraeg 2001 | Nifer Siaradwyr Cymraeg 2011 |
|---|---|---|---|---|
| 25-29 oed | 24.2 | 22.8 | 1,174 | 1,032 |
| 30-34 oed | 22.0 | 23.1 | 1,295 | 1,039 |
| 35-39 oed | 21.5 | 22.7 | 1,425 | 1,215 |
| 40-44 oed | 21.6 | 20.6 | 1,271 | 1,320 |
| 45-49 oed | 20.5 | 19.1 | 1,202 | 1,326 |
| 50-54 oed | 21.0 | 18.6 | 1,471 | 1,158 |
| 55-59 oed | 22.1 | 17.3 | 1,283 | 1,034 |
| 60-64 oed | 22.8 | 18.7 | 1,212 | 1,340 |
| 65-69 oed | 25.0 | 18.6 | 1,175 | 1,079 |
| 70-74 oed | 24.4 | 20.3 | 1,109 | 972 |
| 75-79 oed | 24.6 | 22.4 | 1,011 | 832 |
| 80+ oed | 26.9 | 24.6 | 1,472 | 1,328 |

Tarddiad: Sbectrwm

Yr hyn sy'n galonogol am y data yw'r cynnydd sylweddol yn y ganran a'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 3-4, o 19.6% (417 mewn nifer) yn 2001 i 27.6% (584) yn 2011, sy'n gynnydd o 8% a 167 mewn nifer. Mae hyn naill ai'n adlewyrchu'r ffaith bod mwy o rieni neu'r teulu estynedig yn siarad Cymraeg â'u plant yn y cartref neu fod mwy o blant yn mynychu cylchoedd Ti a Fi neu gylchoedd meithrin cyfrwng Cymraeg.

Mae'n werth nodi hefyd bod cynnydd yng nghyfran y plant 5-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg ers 2001, o 42.8% i 46.25%. O ran niferoedd mae gostyngiad yn y grŵp oedran hwn o 309, sydd yn adlewyrchu'r ffaith bod llai o blant yn y blynyddoedd hynny o'u cymharu â degawd ynghynt.

## Polisi a Deddfwriaeth Cenedlaethol

Sefydlodd Deddf Yr Iaith Gymraeg 1993 yr egwyddor fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd cyfartal mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Rhoddodd y Ddeddf ddyletswydd ar y sector gyhoeddus i drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

Rhoddodd Mesur Y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Iaith Gymraeg, a chrewyd rôl Comisiynydd y Gymraeg.

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gydag egwyddor allweddol y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal. Mae gan y Comisiynydd hefyd bwerau i ymchwilio unrhyw gorff cyhoeddus am beidio cydymffurfio â'r safonau.

Cyflwynwyd y Safonau yn Sir Ddinbych yn gynnar ym mis Mawrth 2016 ac fe wnaethant ddisodli'r Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.

## Iaith Fyw:
## Iaith Byw 2012 – 2017

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen bolisi pum mlynedd o'r enw  Iaith Fyw: Iaith Byw 2012 – 2017

Bwriad y Llywodraeth yn y ddogfen hon oedd gweld yr Iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru a 'chryfhau'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd. I'r perwyl hwn, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld

- cynnydd yn y nifer o bobl sy'n siarad ac sy'n defnyddio'r iaith
- mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- cynnydd yn hyder a rhuglder pobl yn yr iaith
- cynnydd yn ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol ac fel sgil i'w ddefnyddio mewn bywyd cyfoes
- cryfhau safle'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau
- cynrychiolaeth gref o'r iaith Gymraeg drwy'r cyfryngau digidol


Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Llywodraeth am weld y cyfrifoldeb dros hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei rannu a'i sefydlu ymysg nifer gynyddol o sefydliadau ar draws Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gosod targed cenedlaethol i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae'r Llywodraeth wedi nodi bod angen i ni yng Nghymru gyrraedd safle lle mae'r iaith Gymraeg yn elfen gwbl naturiol ym mhob agwedd o fywyd pob dydd. Os ydym am gyflawni hynny, rhaid i'r holl genedl fod yn rhan o'r drafodaeth - siaradwyr Cymraeg rhugl, siaradwyr Cymraeg sy'n gyndyn o ddefnyddio'r iaith, siaradwyr newydd sydd wedi dysgu'r iaith, neu bobl nad ydynt yn cyfrif eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

# Thema 1
## Cynllunio’r Iaith Gymraeg yn Strategol yn Sir Ddinbych

**Y weledigaeth**:
- Agwedd fwy cydlynol tuag at gynllunio ieithyddol strategol yn y sir.

**Canlyniad a ddymunir**:
- Mwy o ffocws ar gydweithio er lles yr iaith Gymraeg
- Llai o ffocws ar weithgareddau gweithredol a mwy o ffocws ar osod targedau, gydag arweinwyr dirprwyedig ar ffrydiau gwaith.



Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda'i phartneriaid, fel rhan o fforwm sirol sy'n ystyried y defnydd o Gymraeg mewn gweithgareddau ar hyd a lled y sir.  Bwriad y fforwm yw dwyn ynghyd sefydliadau sy'n ymwneud â hyrwyddo'r iaith Gymraeg i gydlynu ymdrechion a chreu dull gweithio mwy cydlynol rhwng yr amrywiol bartneriaid.

Aelodau cyfredol Fforwm Iaith Gymraeg Sir Ddinbych yw:-

- Menter Iaith Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Ddinbych
- Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych
- Yr Urdd
- Mudiad Meithrin
- Twf
- Merched y Wawr
- Clybiau Ffermwyr Ifanc
- Popeth Cymraeg
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru
- Cynllun Gweithredu Iaith Rhuthun
- Cynllun Gweithredu Iaith Bro Edeyrnion
- Coleg Cambria
- Llywodraeth Cymru

Tra bo'r grŵp yn llwyddiannus o safbwynt rhannu manylion gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd wedi eu trefnu, rhaid iddo fod yn fwy strategol yn ei weithgareddau a bod yn fwy clir o safbwynt ei nod a'i amcanion. Caiff hyn ei gadarnhau yn adolygiad diweddar y Mentrau Iaith a Chynlluniau Gweithredu Iaith, a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd a Sbectrwm.

Mae gan y Fforwm Iaith y potensial i gydlynu ymdrechion yr holl sefydliadau perthnasol a'r awdurdodau lleol er mwyn iddynt weithredu'n fwy strategol. Dylid ystyried ail edrych ar aelodaeth a chylch gorchwyl y Fforwm a'i ail lansio er mwyn iddo weithredu fel corff mwy strategol a chydlynol o safbwynt adfywio'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Bydd Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn ail ystyried cylch gorchwyl ac aelodaeth Fforwm Iaith Gymraeg y Sir er mwyn sicrhau ffocws mwy strategol a chydweithio gwell rhwng partneriaid. | Pob partner ar Fforwm Iaith y Sir. | Rhagfyr 2017 |
| Bydd Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn gosod methodoleg glir er mwyn monitro cynnydd ieithyddol a mesur deilliannau ieithyddol o safbwynt cynlluniau gweithredu lleol a sirol. | Pob partner ar Fforwm Iaith y Sir. | Rhagfyr 2017 |
| Dylai cyrff cyhoeddus ymateb yn gadarnhaol i'r Safonau Iaith Gymraeg a rhoi statws a gwerth economaidd uchel i'r iaith drwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithlu. | Pob partner ar Fforwm Iaith y Sir. | Ebrill 2017 ac yn barhaus |
| Bydd Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn gweithio gyda'r Fforwm Iaith Gymraeg i gyrraedd cytundeb ynglŷn â pha sefydliad ddylai arwain ar ddatblygu cynlluniau strategol ym mhob maes gweithredu. | Pob partner ar Fforwm Iaith y Sir. | Mehefin 2017 |

# Thema 2
## Children and Young People

**Y weledigaeth**:

- Cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc drwy gael mynediad at addysg a gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol yn Gymraeg.

**Canlyniad a ddymunir**:

- Cyrhaeddiad gwell yn y Gymraeg ac mewn pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob cyfnod allweddol ym mhob ysgol.
- Mwy o fyfyrwyr 14 - 16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o weithgareddau hamdden ac ieuenctid yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Dangosyddion**:

- Mwy o blant saith oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella'u sgiliau Cymraeg yn y cam trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Mwy o fyfyrwyr 14 - 16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o fyfyrwyr 14 – 19 oed yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau, a dysgu seiliedig ar waith.
- Mwy o fyfyrwyr gyda sgiliau lefel uwch yn Gymraeg
- Cynnydd yn nifer y sesiynau gwaith ieuenctid dwyieithog.
- Cynnydd yn nifer y staff y gwasanaeth ieuenctid sy'n siarad/dysgu Cymraeg



## Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg

Mae’r Cyngor wedi gosod targedau uchelgeisiol i wella cyrhaeddiad yn y Gymraeg ar draws pob cyfnod allweddol, i gynyddu faint o Gymraeg sy’n cael ei ddysgu, cynyddu’r canran o ddysgwyr sy’n cyrraedd gradd A* - C mewn Cymraeg iaith gyntaf ac i ddatblygu sgiliau'n gweithlu.

Rydym am sicrhau, drwy raglen Ysgolion yr 21ain ganrif bod digon o gapasiti i sicrhau fod addysg cyfrwng Cymraeg yn hygyrch drwy'r sir.

Byddwn hefyd yn cefnogi trosglwyddiad llyfn o leoliadau ysgol neu ofal plant i addysg cyfnod sylfaen, parhad o ysgol i ysgol a herio tanberfformiad dysgwyr.

Bwriad Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg yw gosod sylfeini cryf drwy wella cyfathrebu a dealltwriaeth llafar drwy gychwyn mewn lleoedd cyn ysgol, targedu gwella’r iaith mewn ysgolion cynradd a gwella parhad drwy bob cyfnod allweddol.

## Y Gwasanaeth Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych yn rhedeg amrywiol brosiectau a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc sydd rhwng 11 a 25 oed. Mae’r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn canolfannau ieuenctid ac mewn ysgolion a neuaddau cymunedol ar draws y sir. Mae’r gwasanaeth yn cynnal gweithgareddau sy’n galluogi pobl ifanc i ddatblygu a gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth a chynyddu eu hyder a'u hunan-barch. Mae’r gweithgareddau, sy’n rhad ac am ddim, yn cynnwys chwaraeon, celf a chrefft, gemau, tripiau ac ymweliadau. Mae’r gwasanaeth hefyd yn darparu rhaglenni addysgiadol o safbwynt iechyd, sgiliau byw'n annibynnol a rheoli arian.

Er mwyn i’r iaith Gymraeg gael ei gweld fel iaith gymunedol fyw, mae'n bwysig dangos i bobl ifanc yn enwedig ei bod yn bosib defnyddio’r iaith Gymraeg y tu allan i strwythurau ffurfiol addysg a'i bod yn iaith sy’n cyfoethogi eu bywyd bob dydd. At y diben hwnnw, mae'n bwysig fod Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc fwynhau gweithgareddau ysgol addysgiadol neu raglenni drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid yw'r gallu gan y gwasanaeth i gyflawni hyn yn fewnol, gan na all unrhyw un o'r gweithwyr ieuenctid sy’n gyfrifol am arwain y gwaith yn y sir siarad Cymraeg.

Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda’r Urdd i gyflogi swyddog ieuenctid. Mae’r swyddog, a gyflogir ar y cyd gan yr Urdd a’r Cyngor Sir, yn gyfrifol am ddatblygu uwch-adrannau ac aelwydydd ym mhob un o’r chwe ardal leol o fewn y sir yn ogystal â chynnal gweithgareddau allgyrsiol ar y cyd â’r ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae’r cytundeb yn cydnabod medrusrwydd a phrofiad yr Urdd wrth ddarparu rhaglen amrywiol o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg.


Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Yr her i'r gwasanaeth, fodd bynnag, yw adeiladu ar y bartneriaeth gyda'r Urdd a Menter Iaith Sir Ddinbych gan hefyd adeiladu capasiti o fewn y gwasanaeth i ddarparu gweithgareddau a rhaglenni addysgiadol drwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae sgôp hefyd i ddatblygu perthynas gydweithredol gyda mudiad y Ffermwyr Ifanc, sydd yn hynod o weithgar o fewn y sir.

## Hamdden

Mae Adran Gwasanaethau Hamdden y Cyngor Sir yn gyfrifol am reoli amrywiaeth eang o adnoddau hamdden awyr agored a dan do.

Nod y gwasanaeth yw creu cymunedau mwy iach a mwy llewyrchus, a gwasanaeth sy'n cyfoethogi bywydau pobl. Athroniaeth y gwasanaeth yw sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc, oedolion a grwpiau allweddol o fewn y gymuned yn cael cyfle, waeth be fo'u gallu na'u hamgylchiadau, i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden cynaliadwy o safon.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwersi nofio a sesiynau ffitrwydd dwyieithog ac yn mynd ati i wella'n cynnig cyfredol. Er y gwneir peth defnydd anffurfiol o'r iaith Gymraeg mewn gwersi a sesiynau nofio, yn gyffredinol mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig.

Fel y nodir uchod yng nghyd-destun y Gwasanaeth Ieuenctid, mae'n hanfodol bod gweithgareddau hamdden a chwaraeon ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc fel eu bod yn sylweddoli y gellir defnyddio'r iaith ar lefel gymunedol y tu allan i'r ysgol a'r ystafell ddosbarth.

Mae'r Adran wedi ymrwymo i sicrhau bod rheolwr rheng flaen dwyieithog ar gael ym mhob un o Ganolfannau Hamdden y Sir i ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd. Mae'r Adran hefyd yn gweithio gyda'r Urdd i ddarparu sesiynau 'Sportzone' drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn ymgynghoriad cyhoeddus diweddar, daeth cael gwersi nofio a gweithgareddau hamdden eraill drwy gyfrwng y Gymraeg i frig y rhestr o ddymuniadau rhieni.

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a darparwyr gofal plant preifat i sicrhau fod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob rhan o'r sir a bod dilyniant cadarn i addysg cynradd cyfrwng Cymraeg. | Gwasanaeth Addysg / Gwybodaeth i Deuluoedd | Ebrill 2020 |
| Bydd y Cyngor Sir a'r Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos gyda chynlluniau fel Dechrau'n Deg, sy'n cefnogi rhieni mewn cymunedau sydd dan anfantais, i sicrhau fod y Gymraeg yn cael lle addas yn y gweithgareddau a ddarperir ganddynt ar draws y sir. | Gwasanaeth Addysg / Gwybodaeth i Deuluoedd | Ebrill 2020 |
| Bydd y Cyngor Sir yn gweithio gyda staff a chyrff llywodraethol ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n gwneud defnydd sylweddol o'r Gymraeg i sicrhau bod y cwricwlwm Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg a chynllunio ar gyfer dilyniant ieithyddol addas yn yr ysgolion hyn yng Nghyfnod Allweddol 2. | Gwasanaethau Addysg | Ebrill 2020 |
| Bydd y Cyngor Sir yn cychwyn y broses o glustnodi ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n barod i ddarparu canran uwch o'r cwricwlwm Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r bwriad yn y pen draw o ehangu'r ddarpariaeth a sicrhau dilyniant ieithyddol addas yng Nghyfnod Allweddol 2. | Gwasanaethau Addysg | Ebrill 2020 |
| Bydd Adran Addysg y Cyngor Sir yn datblygu'r cynllun Siarter Iaith ymhellach, er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith ymysg dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. | Gwasanaethau Addysg | Ebrill 2020 |

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Bydd y Cyngor Sir, ar y cyd â Menter Iaith Sir Ddinbych a Rhieni Dros Addysg Gymraeg, yn rhedeg ymgyrch farchnata barhaol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a manteision dwyieithrwydd i rieni a disgyblion. | Gwasanaethau Addysg | Ebrill 2020 |
| Bydd y Cyngor Sir yn darparu hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr cynradd ac uwchradd ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a'r rhesymau addysgiadol, economaidd a chymunedol pam y dylid ehangu'r ddarpariaeth ar draws y sir. | Gwasanaethau Addysg | Ebrill 2020 |
| Bydd y Cyngor Sir yn cynnal archwiliad o sgiliau ieithyddol y staff o fewn yr Adran Hamdden er mwyn cynllunio ar gyfer y nifer o staff a all gynnig gwasanaethau hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg | Gwasanaethau Hamdden | Ebrill 2018 |
| Bydd y Cyngor Sir yn archwilio i'r angen am wersi (nofio a ffitrwydd) drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn rhoi cynlluniau mewn lle i ddarparu'r gwersi hynny lle mae galw. | Gwasanaethau Hamdden | Ebrill 2018 |
| Bydd Adran Hamdden y Cyngor Sir yn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau iaith er mwyn cynnig sesiynau dwyieithog lle mae galw am hynny. | Gwasanaethau Hamdden | Ebrill 2018 |

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
| --- | --- | --- |
| Bydd y Cyngor Sir yn mabwysiadu 'Cefnogwr Iaith' ym mhob Canolfan Hamdden i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a datblygu ethos Gymraeg. | Gwasanaethau Hamdden | Rhagfyr 2017 |
| Bydd y Cyngor Sir yn cefnogi staff gweinyddol a rheng flaen o fewn y gwasanaeth hamdden sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dysgu Cymraeg er mwyn datblygu eu sgiliau ieithyddol. | Gwasanaethau Hamdden | Rhagfyr 2017 |
| Bydd y Cyngor Sir yn cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn ei wasanaeth ieuenctid drwy recriwtio mwy o staff dwyieithog yn y dyfodol a chefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Gwasanaeth Ieuenctid | Mawrth 2021 |
| Bydd y Cyngor Sir yn parhau i ddatblygu'r bartneriaeth gyda'r Urdd a darparwyr gwaith ieuenctid eraill er mwyn sicrhau yn y tymor byr fod gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gael i bobl ifanc Sir Ddinbych. | Gwasanaeth Ieuenctid | Ebrill 2017 ac ymlaen |
| Bydd y Cyngor Sir yn sefydlu ac yn hwyluso grŵp strategol sirol o'r prif ddarparwyr i ddatblygu a chydlynu gweithgareddau hamdden ieuenctid ar gyfer pobl ifanc a phlant drwy gyfrwng y Gymraeg. | Gwasanaeth Ieuenctid / Gwasanaethau Addysg | Ebrill 2017 ac ymlaen |

# Thema 3
## Y Gymuned



**Y weledigaeth:**

- Mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yng nghymunedau Sir Ddinbych.

**Canlyniad a ddymunir:**

- Hyrwyddo mwy ar wasanaethau'r cygnor a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol.
- Gwell dealltwriaeth o effeithiau polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor ar yr iaith Gymraeg a manteision dwyieithrwydd mewn cymunedau.

**Dangosyddion:**

- Cynnydd yn nifer o bobl sy'n symud i Sir Ddinbych sy'n cael mynediad at wybodaeth ynglŷn â dwyieithrwydd
- Nifer y penderfyniadau polisi'r cyngor lle ystyriwyd yr effaith ar yr iaith Gymraeg.

## Hyrwyddo’r iaith Gymraeg mewn cymunedau

Rhaid i'r iaith Gymraeg fod yn iaith fyw, lle mae'n arferol i bobl gael dewis pa iaith y maent yn ei defnyddio; lle maent yn cael cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith fyw drwy ein cyswllt gyda’n trigolion.

At y diben hwn, bydd y Cyngor yn sicrhau fod ei holl gyfathrebu â thrigolion yn ddwyieithog; yn gywir ei ystyr, a bydd gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hyrwyddo drwy gylchlythyr trigolion, gwefan y Cyngor a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn gweithio gydag oedolion sy’n ddysgwyr i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu a chyfoethogi sgiliau iaith Gymraeg drwy gydweithio effeithiol.

Byddwn hefyd yn cryfhau’n cysylltiadau gwaith gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â datblygu’r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych, gan sicrhau fod gan bobl ddealltwriaeth gadarn o fanteision dwyieithrwydd, yr angen i gyfoethogi diwylliant dwyieithog y sir ac i ddarparu cyfleoedd i'r iaith Gymraeg ffynnu'n organig.

## Polisi a gwneud penderfyniadau

Mae nifer o elfennau eraill o waith y Cyngor sy'n cael effaith bosib ar yr iaith Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Safonau’r Iaith Gymraeg yw'r effeithiau y gallai unrhyw bolisi neu benderfyniad ei gael ar yr iaith Gymraeg, boed yn gadarnhaol, yn niwtral neu'n negyddol. Byddwn yn sicrhau bod pob gwasanaeth yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau, yn cynnal asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg ble bo'n addas a nodi cyfleoedd i liniaru effeithiau negyddol unrhyw benderfyniad.

Bydd y Cyngor yn ystyried defnydd yr iaith Gymraeg mewn meysydd gwneud penderfyniadau polisi allweddol, a Chynllunio fydd un o’r prif feysydd hynny o’n gwaith.

## Cynllunio

Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn darparu gweledigaeth o safbwynt sut gall datblygiadau newydd a defnydd o dir ymdrin â’r heriau a wynebir gan y sir dros y degawd nesaf. Fel y nodwyd gan y Cyngor Sir yn ei Gynllun Datblygu Lleol - 'Drwy ddarparu fframwaith gydlynol i benderfynu lle, pryd a faint o ddatblygiad newydd a ganiateir hyd at 2021, mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych yn bwriadu, drwy egwyddorion cynaliadwy, wneud y Sir yn wyrddach, yn decach, yn gyfoethocach a chydnabod y dylid cynnal a gwarchod iaith a diwylliant Cymraeg.'

Mae Polisi Cynllunio Cymru (2010) yn nodi polisïau defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae’r ddogfen hon, yn ogystal â chanllawiau atodol NODYN CYNGOR TECHNEGOL (TAN) 20 ar yr Iaith Gymraeg (2000) yn nodi y dylai system gynllunio defnyddio tir ystyried anghenion a diddordebau’r Gymraeg, a thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei lles.

## Fframwaith Mwy na Geiriau

Mae’r fframwaith Mwy Na Geiriau wedi ei osod er mwyn cynyddu cyfleoedd i bobl gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn Sir Ddinbych, rydym yn parhau â dull gweithredu rhagweithiol gan hybu’n cynnig gweithredol i drigolion.

Mae'r Fframwaith yn ei gwneud yn angenrheidiol i Sir Ddinbych ystyried camau i sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth allweddol wrth gomisiynu gwasanaethau a bod y Cynnig Gweithredol yn amlwg o’r pwynt cyswllt cyntaf. Mae’r tîm datblygu'r gweithlu yn parhau i gynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg a datblygu ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Ystyried effaith gwneud polisi/penderfyniadau ar yr iaith Gymraeg a chymunedau | Holl wasanaethau'r Cyngor | Parhaus |
| Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gofyn am ddatganiadau cymunedol a ieithyddol i gyd fynd â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau llai o fewn pentrefi a chefn gwlad agored), h.y datblygiadau o 5 neu fwy o gartrefi; datblygiad masnachol, diwydiannol, twristiaeth/hamdden o 1,000m$^2$ neu fwy o lawr; datblygiadau sy'n debygol o arwain at golled cyfleusterau cymunedol neu gyfleon gwaith; prosiectau isadeiledd gydag effaith cymunedol tymor hir). Dylai asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg gael ei gynnal ar unrhyw ddatblygiad mawr. | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Parhaus |
| Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gofyn am Ddatganiadau Cymunedol a Ieithyddol i gyd fynd â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mwy ym mhob ardal (h.y datblygiad o fwy nag 20 o dai; datblygiad masnachol, diwydiannol, twristiaeth/hamdden o 1,000m$^2$ neu fwy o lawr; datblygiadau sy'n debygol o arwain at golled cyfleusterau cymunedol neu gyfleon gwaith; prosiectau isadeiledd gyda g effaith cymunedol tymor hit). | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Mehefin 2021 |
| Fel rhan o'r arolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd arfarniad cynaliadwyedd a phroesau asesu cysylltiedig yn asesu effaith strategaeth gofodol y cynllun, polisiau a dyraniadau ar yr iaith Gymraeg. Lle bod tystiolaeth yn dangos effaith andwyol, bydd newidiadau neu mesurau lliniaru yn cael eu hadnabod. | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | Mehefin 2017 |

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
| --- | --- | --- |
| Marchnata mwy ar y cyrsiau Cymraeg sydd ar gael yn y gymuned | Tîm cyfathrebu a darparwyr cyrsiau | Rhagfyr 2020 |
| Lansio cynllun cyfeillio cymunedol | Fforwm Iaith Gymraeg Sirol | Rhagfyr 2017 |
| Pecynnau gwybodaeth i drigolion newydd i'r sir ynglŷn â phwysigrwydd dwyieithrwydd (mewn cydweithrediad â gwerthwyr tai ac asiantaethau gosod tai) | Fforwm Iaith Gymraeg Sirol / Gwerthwyr Tai ac Asiantaethau Gosod Tai | Rhagfyr 2017 |
| Presenoldeb mewn digwyddiadau sirol allweddol er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg | Fforwm Iaith Gymraeg Sirol | Rhagfyr 2017 ac yn barhaus |
| Cyd-hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol partneriaid | Fforwm Iaith Gymraeg Sirol | |
| Hwyluso a chefnogi digwyddiadau o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. | Cyngor Sir Ddinbych | Rhagfyr 2020 |
| Ymgyrch farchnata ar y cyd i hyrwyddo'r Iaith Gymraeg. | Fforwm Iaith Gymraeg Sirol | Ebrill 2017 |
| Gweithredu'r Fframwaith Mwy Na Geiriau | Gofal Cymdeithasol | Ebrill 2017 |

# Thema 4
## Busnes a’r economi



**Y weledigaeth**:
Cydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol yr iaith Gymraeg.

**Canlyniad a ddymunir**:
- Dylai’r Cyngor Sir a phartneriaid datblygu economaidd eraill gydnabod pwysigrwydd dyfodol yr iaith Gymraeg i gymunedau ffyniannus a dylid cynhyrchu strategaethau er mwyn sicrhau fod pobl ifanc yn enwedig yn cael cyfle i fyw a gweithio yn eu cymunedau lleol a chyfrannu at eu ffyniant.

**Dangosyddion**:
- Nifer y busnesau yn Sir Ddinbych yn cael eu hyfforddi ynglŷn â manteision dwyieithrwydd drwy ymgyrch wedi ei thargedu.
- Nifer y busnesau yn arddangos arwyddion / deunyddiau hyrwyddo Cymraeg o fewn eu busnes drwy ymgyrch wedi ei thargedu.
- Nifer y cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at waith yn lleol.

## Cefndir Economaidd a Chymdeithasol

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 93,734 o bobl yn byw yn Sir Ddinbych, a 58.1% o'r rheiny wedi eu geni yng Nghymru.

Mae economi Sir Ddinbych yn amrywiol iawn. Yn y gogledd, mae trefi fel Y Rhyl a Phrestatyn yn ganolfannau allweddol ar gyfer y sectorau twristiaeth, hamdden a manwerthu. Mae'r gogledd hefyd yn gartref i Barc Busnes Llanelwy, lle lleolir nifer o gwmnïau technolegol pwysig. Yn y de, mae'r ardal wledig yn rhwydwaith o bentrefi bach traddodiadol sy'n ganolfannau twristiaeth pwysig. Mae harddwch naturiol y tirlun, sydd wedi ei ddynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, yn denu ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu'n cael eu cyflogi mewn Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (19.1%), Cyfanwerth a Manwerthu (14%), Addysg (10%) ac Adeiladu (9%). Y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a gweinyddu, yw'r cyflogwr mwyaf yn y sir, gyda chyfran uwch o'r boblogaeth yn gweithio yn y sector hon nac mewn unrhyw ardal awdurdod lleol arall yn y DU.

Mae swyddi yn y sector busnes yn tueddu i fod mewn sectorau fel manwerthu, hamdden a thwristiaeth, ac yn gyffredinol mae'r rhain yn swyddi tymhorol, cyflog isel.

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
| --- | --- | --- |
| Darparu rhaglen hyfforddiant beilot i fusnesau lleol yn Sir Ddinbych ar ddwyieithrwydd. | Datblygiad Economaidd a Busnes | Mawrth 2017 |
| Cyflwyno rhagor o hyfforddiant ar gyfer busnesau os oes galw amdano | Datblygiad Economaidd a Busnes | Hyfforddiant ar gyfer 30 o fusnesau ar gyfer cyfnod y strategaeth |
| Trefnu sesiynau i fusnesau i weld sut gallant gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol | Datblygiad Economaidd a Busnes | 2 sesiwn y flwyddyn |
| Darparu dogfen briffio i fusnesau ar fanteision dwyieithrwydd | Datblygiad Economaidd a Busnes | Ebrill 2017 |
| Rhannu arfer da ymysg busnesau ar fanteision dwyieithrwydd | Datblygiad Economaidd a Busnes | Ebrill 2017 ymlaen |

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Darparu bathodynnau Siarad Cymraeg i fusnesau | Datblygiad Economaidd a Busnes | Ebrill 2017 |
| Codi ymwybyddiaeth o gyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion yn y gymuned | Tîm Cyfathrebu / Darparwyr Cymraeg i Oedolion | Mehefin 2017 |
| Cylchlythyr i'r gymuned fusnes ar ba fath o gefnogaeth busnes sydd ar gael i hyrwyddo'r iaith Gymraeg | Tîm Cyfathrebu / Datblygiad Economaidd a Busnes | Parhaus mewn amryw o newyddlenni |
| Clustnodi cefnogwyr busnes ym mhob prif dref i weithredu fel llysgennad ar gyfer yr iaith Gymraeg | Datblygiad Economaidd a Busnes | Ebrill 2017 ymlaen |
| Annog busnesau yn Sir Ddinbych i nodi'r iaith Gymraeg fel sgil ychwanegol wrth recriwtio staff newydd | Datblygiad Economaidd a Busnes | 2017 ymlaen |
| Sicrhau fod pob contract a gyhoeddir gan y Cygor yn glynu at amodau anghenion Safonau'r Iaith Gymraeg | Tîm Caffael | Mawrth 2017 |



# Thema 5
## Gweinyddiaeth fewnol y Cyngor

**Y weledigaeth:**

- Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg yn y gweithle, gyda mwy o bwyslais ar gynnwys anghenion penodol iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd

**Canlyniad a ddymunir:**

- Mwy o staff yn defnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- Darparu mwy o gyfleoedd hyfforddi (hyfforddiant a mentora ffurfiol).
- Diwylliant dwyieithog mwy positif o fewn y sefydliad.

**Dangosyddion:**

- % cynnydd yn y nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg yn y Gweithle.
- % cynnydd yn y nifer o staff sy'n cael eu mentora / cyfeilla yn y Gweithle.
- Mwy o gyfle i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn y gweithle. .

Mae economi Sir Ddinbych yn dibynnu'n helaeth ar y sector cyhoeddus. Mae gan y sir gyfran uwch o bobl yn gweithio yn y sector cyhoeddus nag unrhyw ran arall o'r DU, yn arbennig o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Cyngor Sir ymysg y corff cyhoeddus fwyaf o safbwynt cyflogaeth, caiff oddeutu 5,000 o bobl eu cyflogi gan y Cyngor.

Mae gan y Cyngor felly rôl ganolog o safbwynt darparu arweinyddiaeth a gosod esiampl mewn amrywiaeth o feysydd amrywiol iawn. Yn ganolog i hyn gall y Cyngor gynnig arweinyddiaeth gref o safbwynt datblygu'r iaith Gymraeg a hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth unigryw'r ardal. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig ystyried rôl y Cyngor fel darparwr gwasanaethau ar gyfer cymuned ddwyieithog ond hefyd fel cyflogwr arwyddocaol. Caiff hyn ei gydnabod yn Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol y Cyngor sy'n nodi taw – 'Bwriad y Strategaeth yw adeiladu ar y cryfderau economaidd a ddarperir gan hunaniaeth a diwylliant Cymreig cryf Sir Ddinbych, ac i annog busnesau, trigolion ac ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.'

Er mwyn ymateb i'r gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg dros ddegawdau diweddar, mae angen i'r Cyngor Sir fod yn fwy rhagweithiol drwy osod disgwyliadau uwch i'w hun fel corff a all arwain y ffordd i godi statws a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sir. Dros gyfnod o amser, gallai'r dull gweithredu hwn arwain at ddatblygu ethos gweithlu a diwylliant a fyddai'n adlewyrchu natur ddwyieithog y cymunedau y mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu.

Mewn amser, byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu gyda hyder i gychwyn gweinyddu yn naturiol ddwyieithog yn y dyfodol.

Mewn archwiliad diweddar o sgiliau iaith y staff, nododd tua 28% ohonynt eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Er mwyn adeiladu ar y sylfeini hyn mae'n bwysig fod y Cyngor Sir yn cydnabod yr iaith Gymraeg fel sgil o fewn y gweithlu ac yn magu hyder staff i ddefnyddio'r iaith Gymraeg drwy eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau ymhellach er mwyn gallu gweithio'n naturiol ddwyieithog ac i annog a chefnogi staff heb sgiliau iaith Gymraeg i ddysgu'r iaith dros gyfnod o amser.

Yn ogystal â chefnogi staff presennol y Cyngor, dylid rhoi ystyriaeth fanwl i bolisïau recriwtio a gweithlu'r Cyngor er mwyn cefnogi'r nod o ddatblygu fel corff dwyieithog. O ganlyniad i gyflwyno'r Safonau Cymraeg newydd byddai angen i'r Cyngor greu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a fyddai'n amlinellu sut mae'n bwriadu cynllunio ar gyfer datblygu gweithlu dwyieithog, meithrin sgiliau ieithyddol staff a mabwysiadu polisi recriwtio a fyddai'n galluogi'r Cyngor i normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ei waith gweinyddu o ddydd i ddydd ac yn y gwasanaethau mae'n ei ddarparu. Fel blaenoriaeth, dylai ganolbwyntio ar yr adrannau sy'n cynnig gwasanaeth rheng flaen i gwsmeriaid.

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Cyflwyno gofynion ieithyddol i bob swydd newydd – lle bydd angen i staff gyflawni sgiliau sylfaenol Lefel 1 yn Gymraeg cyn cychwyn cyflogaeth | Adnoddau Dynol / Pob rheolwr | Medi 2017 |
| Adolygu adnodd staffio iaith Gymraeg y Cyngor, er mwyn cynyddu capasiti o fewn y sefydliad. | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau | Mawrth 2017 |
| Ail lansio cynllun cyfeillio a monitro'r Cyngor | Arweinydd Tîm - Cyfathrebu | Mawrth 2017 |
| Parhau i ddatblygu rôl gwasanaeth Hyrwyddwyr Yr Iaith Gymraeg | Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg | Rhagfyr 2017 |
| Hyrwyddo a marchnata cyrsiau Iaith Gymraeg | Arweinydd Tîm - Cyfathrebu | Ionawr 2017 |
| Asesu sgiliau ieithyddol lefelau o staff yn flynyddol a bwydo'r wybodaeth yma i'r broses gynllunio gwasanaeth blynyddol | Arweinydd Tîm - Cyfathrebu a Swyddog AD | Mawrth 2017 |

| Cam gweithredu | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| Sicrhau fod gan bob aelod newydd o staff sy'n siarad Cymraeg fynediad at becynnau Microsoft Word Cysgair / Cysill | Arweinydd Tîm - Cyfathrebu a Swyddog AD | Ionawr 2017 |
| Sicrhau fod yr holl staff yn cwblhau modiwl e-ddysgu ar yr Iaith Gymraeg | Holl Staff | Rhagfyr 2017 |
| Trefnu sesiynau Gloywi Iaith i staff i gynyddu eu hyder i weithio yn Gymraeg | Swyddogion Hyfforddiant AD | Ebrill 2017 |
| Cynhyrchu holl dudalennau'r fewnrwyd yn Gymraeg | Arweinydd Tîm - Cyfathrebu | Medi 2017 |
| Trefnu diwrnodau blynyddol cenedlaethol sy'n dathlu'r Iaith Gymraeg - e.e. Diwrnod Sumai Shwmae | Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg | Mawrth 2017 |

# Monitro a Rheoleiddio

Strategaeth gorfforaethol yw Strategaeth yr Iaith Gymraeg a chyfuniad yw’r Cynllun Gweithredu cysylltiedig o’r holl ddulliau gweithredu sy'n ymwneud â hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

O ganlyniad, bydd nifer o wahanol adrannau’r Cyngor yn rhoi’r cynllun gweithredu ar waith, yn ogystal â rhai sefydliadau partner.

Bydd pob cam gweithredu yn y cynllun gweithredu wedi ei gynnwys yng nghynllun busnes  y gwasanaeth perthnasol a bydd yr aelod arweiniol a’r pennaeth gwasanaeth yn eu monitro.

Yr arweinydd cyffredinol ar y Strategaeth Iaith Gymraeg yw’r aelod arweiniol sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg.

Bydd gan bwyllgorau archwilio’r Cyngor rôl bwysig wrth fonitro’r Strategaeth, fel y bydd gan y Grŵp Iaith Gymraeg Strategol o fewn Sir Ddinbych.